# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER,<br>9 EBRILL, 2025 am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY,<br>9 APRIL, 2025 at 2.00 o'r gloch** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/ The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Mrs Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector), Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**A G E N D A**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2025.

**4** **BWRDD GWASANAETHAU GWYNEDD AC YNYS MÔN - TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT A CHRAFFU CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLEISIANT 2023-2028** (Tudalennau 9 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**5** **PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN - DIWEDDARIAD** (Tudalennau 21 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**6** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2025/2026** (Tudalennau 33 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FO) (ar gyfer eitem 4 yn unig),<br>Prif Reolwr Datblygu Economaidd (TJ) (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Rheolwr Prosiect (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin) (MF) (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg.<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai. |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

## 2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2025 yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

**Eitem 4 - Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg**

**Gweithred 2 -** Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i ofyn am ddeddfwriaeth newydd i warchod enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol, a phwysleisio'r angen am ddeddfwriaeth o'r fath;

**Rydym yn disgwyl am ymateb i'r ohebiaeth.**

**Gweithred 3 -** Gofyn i Arweinydd y Cyngor godi'r mater gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Rydym yn disgwyl am ymateb i'r materion a godwyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

**Eitem 5 - Adroddiad Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - Crynodeb o sefyllfa gyfredol ADY a Ch**

**Gweithred 2 -** Anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i nodi bod angen darparu cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

**Rydym yn disgwyl am ymateb i'r ohebiaeth.**

**Gweithred 3 -** Bod angen sicrhau cefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru, ar ran y 22 awdurdod lleol, i ddarparu rhagor o arian tuag at Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

**Rydym yn disgwyl am ymateb i'r materion a godwyd.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB 2024

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol fod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys amlinelliad o'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2024 er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 ac mae cysylltiad â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028 hefyd. Yn unol â

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn yn dilyn y cyfnod adrodd. Mae gofynion penodol ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid adrodd arno yn flynyddol. Yn unol â'r gofynion hyn, mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gyflogaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024; trosolwg o'r camau a gymerwyd yn 2024 i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol, a sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn perthynas â'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, a hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda gyda gwahanol grwpiau.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd sut y gellir mynd i'r afael â'r bwlch yn y data o ran nodweddion gwarchodedig staff presennol, wrth barchu hawl unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol bod hawl gan unrhyw un i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol. Mae'r Cyngor yn annog staff i ailymweld â'u data personol, gan sicrhau fod y wybodaeth yn gwbl gyfrinachol. Dywedodd bod y Cyngor yn dymuno creu diwylliant o ymddiriedaeth a pharch er mwyn i staff fod â'r hyder i rannu gwybodaeth bersonol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod data yn bwysig a sefydlwyd grŵp llywio newydd - Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb - i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion, yn ogystal â monitro gweithgareddau er mwyn sicrhau fod pob aelod o staff yn cael ei drin yn gyfartal. Bydd y Grŵp yn ystyried sut y gellir lleihau'r bylchau yn y data.
- Nodwyd bod ffigwr y Cyngor ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sef 9.7% ar 31 Mawrth 2024, yn gadarnhaol. Gofynnwyd pa gamau y gellir eu cymryd i ddileu'r bwlch yn gyfan gwbl. Sicrhaodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol y Pwyllgor nad oes gwahaniaeth o gwbl yn y raddfa gyflog i weithwyr ar gyfer unrhyw swyddi cyfatebol o fewn y Cyngor. Nododd ei bod yn amlwg fod merched yn tueddu i weithio mewn swyddi sydd â chyflog is, ac mae hyn yn gyffredin hefyd mewn awdurdodau lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Mae'r Cyngor yn dymuno hyrwyddo cyfleoedd i ferched ymgeisio am swyddi lefel uwch.
- Gofynnwyd a oes proses ar waith i ymdrin â gwahaniaethu a bwlio staff oherwydd eu hunaniaeth rhywedd. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol nad yw'r Cyngor yn goddef unrhyw fath o fwlio ymysg staff nac aelodau etholedig. Dywedodd y Prif Weithredwr fod polisïau a phrosesau cadarn ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethu ac mae diwylliant yr Awdurdod yn golygu bod staff yn gallu trafod unrhyw broblemau gyda'u rheolwyr. Pe byddai digwyddiad difrifol yn codi, byddai swyddogion annibynnol yn delio â'r mater cyn i Banel priodol drafod y mater. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod y Polisi Atal Bwlio ac Aflonyddu yn berthnasol mewn unrhyw achos o fewn y Cyngor o danseilio a bwlio unrhyw berson oherwydd eu hunaniaeth rhywedd.
- Nodwyd y byddai'n fanteisiol cynnwys cymhariaeth o un flwyddyn i'r llall yn yr adroddiad, mewn perthynas â chanran y staff sy'n ymateb i gais i ddiweddaru eu data personol. Byddai gwybodaeth am nifer y staff sydd wedi cwblhau cyrsiau byr yn fanteisiol hefyd. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod yr hyfforddiant cydraddoldeb yn orfodol i aelodau etholedig.

- Gofynnwyd a gasglwyd data i ganfod pam fod merched yn fwy cyndyn o ymgeisio am uwch swyddi o fewn y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol y byddai Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb yn cael ei sefydlu, a bydd yn canolbwyntio, ymysg pethau eraill, ar sicrhau fod pob aelod o staff yn cael ei drin yn gyfartal. Nododd y byddai'r Grŵp yn cynnwys croestoriad o aelodau.
- Gofynnwyd a oes data ar gael mewn perthynas â'r unigolion a dderbyniodd gefnogaeth gan Gyngor Ar Bopeth wedi'i ariannu gan grant o £250,000 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn cynorthwyo gyda'r argyfwng costau byw. Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol nad yw'r manylion ar gael ar hyn o bryd a bydd angen eu hanfon ymlaen at Aelodau'r Pwyllgor.
- Cyfeiriwyd at y broses gynefino gorfforaethol ar gyfer gweithwyr newydd o fewn y Cyngor. Gofynnwyd a oes cyfle i Aelodau Etholedig fynychu cyfarfodydd cynefino corfforaethol ar gyfer gweithwyr newydd. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn cymryd rhan yn y broses gynefino gorfforaethol yn ei rôl fel Arweinydd er mwyn esbonio rôl aelodau etholedig a phrosesau democrataidd o fewn y Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yntau hefyd yn cymryd rhan yn y sesiynau cynefino corfforaethol a dywedodd ei bod yn briodol i'r Arweinydd fod yn bresennol er mwyn rhoi trosolwg o drefniadau gwleidyddol y Cyngor. Nododd y bydd angen trafod â'r Adran Adnoddau Dynol er mwyn gwella'r wybodaeth a roddir i Aelodau Etholedig mewn perthynas â'r broses gynefino.
- Gofynnwyd a yw teitl a chwmpas y Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb newydd yn addas o ystyried y gwahanol feysydd gwaith. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant a Diogelwch Cymunedol ei fod yn cytuno bod angen cryfhau'r llwyfan cydraddoldeb, a mater i'r Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb fydd trafod cylch gorchwyl a theitl y Grŵp maes o law. Gofynnodd y Cadeirydd a ystyriwyd cynnwys Aelodau Cyfetholedig sy'n aelodau o Bwyllgorau'r Cyngor ar y Grŵp newydd? Dywedodd y Prif Weithredwr y gellir ystyried ehangu aelodaeth Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb ar ôl iddo gael ei sefydlu. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod y rhanddeiliaid yn bwysig, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Strategol, er mwyn cryfhau'r cysylltiadau a sefydlwyd. Nododd bod rhwydwaith cydraddoldeb sector cyhoeddus o fewn y rhanbarth a cheir deialog barhaus gyda Swyddogion ac asiantaethau perthnasol sy'n gweithio ar ran y grwpiau a warchodir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Gofynnodd y Cadeirydd sut fyddai'r Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg a Chydraddoldeb yn monitro ei berfformiad. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol y byddai'r Grŵp, ar ôl ei sefydlu, yn gyfrifol am fonitro ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion perthnasol.
- Gofynnwyd a fyddai'r canrannau a gofnodir yn yr adroddiad yn wahanol pe byddai staff ysgolion yn cael eu hepgor, gan fod nifer uchel o staff ysgolion yn ferched. Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg y byddai'n bosib ystyried y data a gasglwyd yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf, mewn perthynas â darparu data ar wahân ar gyfer y gwahanol broffesiynau a sectorau o fewn y Cyngor.
- Nodwyd bod nifer yr ymgeiswyr yn y categori 65+ oed wedi cynyddu'n sylweddol (13 o gymharu â 2 yn 2022/2023). Gofynnwyd beth yw'r rheswm am y duedd hon a sut all y Cyngor annog pobl yn y grwpiau oedran eraill i ymgeisio? Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion bod pobl, o

bosib, yn ymddeol yn gynnar o’u swyddi a’u bod wedyn yn teimlo eu bod angen swydd arall, am nifer o resymau, e.e. cynnydd mewn costau byw.

- Gofynnwyd pa gynlluniau sydd ar waith i gynnwys data ynglŷn â chontractwyr sy’n gweithio i’r Cyngor yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyried polisïau ac arferion cydraddoldeb o fewn eu sefydliadau. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol fod disgwyliadau o ran cydraddoldeb yn cael eu gosod ar gontractwyr. Nododd y byddai cynnwys data ynglŷn â chontractwyr yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf yn cael ei ystyried ymhellach.
- Gofynnwyd hefyd a fyddai’n bosib darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â’r sesiynau Ymwybyddiaeth Menopôs, gan gynnwys y cwmpas ac argaeledd staff. Dywedodd y Rheolwr Polisi a’r Gymraeg fod hyfforddiant Ymwybyddiaeth Menopôs yn cael ei ddarparu ar gyfer unigolion, ac yn bwysicach fyth, Rheolwyr, er mwyn iddynt fod yn fwy sensitif ac ystyriol o amgylchiadau pobl.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023/2024.**

**GWEITHREDOEDD:**

- Bod y Grŵp Hyrwyddo’r Gymraeg a Chydraddoldeb yn ystyried ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chryfhau’r data sylfaenol am staff, gan ddefnyddio gwybodaeth o’r Sgwrs Flynyddol er mwyn monitro tueddiadau.
- Ailystyried cyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb newydd ar gyfer staff ac aelodau etholedig, yn dilyn cymeradwyo’r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2024;
- Archwilio ffyrdd o wella dealltwriaeth aelodau etholedig o’r broses gynefino gorfforaethol ar gyfer staff newydd, ar y cyd ag Adnoddau Dynol;
- Ailystyried teitl a chwmpas y Grŵp Hyrwyddo’r Gymraeg a Chydraddoldeb.

## 5 TROSOLWG O GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i’r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Arweinydd a’r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod Llywodraeth y DU wedi lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gymryd lle rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Roedd Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yn ffynhonnell gyllido sylweddol yng Nghymru am ddegawdau ac arferai Ynys Môn dderbyn arian sylweddol o’r cronfeydd hyn er mwyn cefnogi busnesau, datblygu sgiliau, gwella cyflogadwyedd, yn ogystal ag ariannu rhaglenni cyfalaf seilwaith. Arian, gwerth £2.6 biliwn, a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU i’w fuddsoddi’n lleol ledled y DU rhwng Rhagfyr 2022 a Mawrth 2025 yw Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Roedd dyraniad Ynys Môn trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn £16,081,937 (gyda £2.78M yn cael ei neilltuo ar gyfer y cynllun Lluosi). Roedd y cyllid yn cael ei gymeradwyo a’i ryddhau gan Lywodraeth y DU yn flynyddol. Y flaenoriaeth oedd sicrhau fod holl wariant y prosiect a ddyrannwyd yn cael ei ddefnyddio, a bod buddion ystyrlon yn cael eu cyflawni, er budd trigolion a busnesau ar Ynys Môn. Darparwyd cymorth ariannol i 496 o fusnesau, mentrau a sefydliadau,

cynorthwywyd 913 o breswylwyr i wella eu sgiliau rhifedd, cafodd 80 o swyddi eu creu neu eu diogelu ar yr ynys, a chefnogwyd 361 o bobl i ennill cymhwyster.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Gofynnwyd beth yw'r camau nesaf ar ôl cwblhau'r rhaglen bresennol ym mis Mawrth 2025 ac a oes unrhyw brosiectau, nad oeddent wedi llwyddo i dderbyn arian o dan y cynllun presennol, yn barod i fanteisio ar y cyllid sydd ar gael. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod yr amserlenni gwreiddiol ar gyfer y Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin wedi cael eu hymestyn i 2025/2026, ond mae'r cyllid sydd ar gael y flwyddyn nesaf yn sylweddol is o gymharu â'r cynllun gwreiddiol. Dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd fod £5m o gyllid ar gael ar gyfer 2025/2026, a bydd rhaid ei wario yn ystod y flwyddyn honno. Nid oes sicrwydd faint o gyllid fydd ar gael wedi hynny, ond mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau fod Ynys Môn yn derbyn cyfran o'r arian fydd ar gael.
- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r 80 o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd gan ddefnyddio arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd fod yr Awdurdod hwn wedi manteisio ar y Cynllun Lluosi. Roedd hyn yn gam cadarnhaol a oedd yn dangos gallu'r Partneriaid Cyflawni perthnasol i wario arian ychwanegol a gwireddu buddion ychwanegol ar gyfer yr Ynys.
- Nodwyd fod disgwyl i 76 o bobl dderbyn cefnogaeth iechyd meddwl ac iechyd corfforol fyddai'n arwain at gyflogaeth, ond y nifer gwirioneddol a gofnodwyd oedd 0. Gofynnwyd beth yw'r rhesymau am y bwlch sylweddol hwn. Dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd fod 46 o bobl yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau partner i ddarganfod pa rwystrau sy'n wynebu pobl ifanc wrth geisio symud o addysg i fyd gwaith.
- Nodwyd y byddai pobl yn wynebu ansicrwydd ynglŷn ag a fyddant yn parhau i gael eu cyflogi pan ddaw arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ben. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2025/2026 yn sylweddol is na'r arian a dderbyniwyd yn flaenorol, a bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â faint o brosiectau y gellir eu cefnogi, ac mae'n bosib na fydd contractau rhai pobl yn cael eu hymestyn. Ychwanegodd fod arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn berthnasol i'r Awdurdod hefyd, gan fod y Cyngor yn arwain rhai o'r prosiectau ac mae'n cyflogi staff o fewn y prosiectau perthnasol hyn. Dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd fod yr arian a dderbyniwyd ar gyfer 2025/2026 wedi cyrraedd yn hwyr a bod rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym er mwyn i Swyddogion yr adran Datblygu Economaidd sgorio'r prosiectau; bydd y sefydliadau perthnasol yn cael eu hysbysu am y penderfyniadau cyn gynted â phosibl. Pwysleisiodd fod angen pwyso i sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu am ffynonellau ariannu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n parhau. Dywedodd yr Arweinydd fod yr arian grant a dderbyniwyd yn llawer llai, er i Lywodraeth y DU roi sicrwydd y byddai'r cyllid ar lefel debyg i'r arian Ewropeaidd a fu'n cefnogi prosiectau dros nifer o flynyddoedd. Nododd bod contractau gweithwyr yn nodi y byddai eu contractau'n dod i ben ddiwedd Mawrth 2025. Er hynny, derbyniwyd arian ychwanegol, hyd at 2026, ond mae'n llawer is na'r arian blaenorol. Dywedodd ei bod yn holl bwysig defnyddio arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin i greu cyfleoedd cyflogaeth er mwyn

caniatáu i bobl ymgeisio am swyddi parhaol, yn hytrach na dibynnu ar brosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau.

- Gofynnwyd a fydd y cydweithio gyda'r trydydd sector yn parhau mewn perthynas â phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau. Oherwydd yr argyfwng costau byw a thlodi, dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn hanfodol i'r cydweithio a'r trydydd sector barhau ar lefel strategol, foesegol ac ariannol. Er hynny, gan fod yr arian grant yn sylweddol is nag yn y gorffennol, bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â phwy fydd yn derbyn yr arian, er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiectau a gefnogir. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cefnogi prosiectau mewn cymunedau lleol. Nododd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i sefydlu ffynhonnell ariannu ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2026 ymlaen, gan fod ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn ag arian grant yn y dyfodol.
- Gofynnwyd pa sicrwydd y gellir ei roi y byddai'r holl brosiectau'n llwyddo i gyrraedd eu cerrig milltir arfarnu a'u hymrwymiadau cyn cau'r prosiectau, a gofynnwyd beth yw'r broses fonitro. Dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd ei fod yn ffyddiog y byddai'r holl brosiectau'n cael eu cyflawni gan eu bod eisoes yn cyflwyno adroddiad cynnydd misol.
- Gofynnwyd pa gynlluniau a wnaed i roi cynlluniau Cynllunio Lle ar waith yn ystod y cyfnod cyflawni nesaf, a phwy fydd yn arwain y prosiectau. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd fod y cynlluniau Cynllunio Lle yn fater ar wahân i arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin a bod arian grant wedi'i sicrhau ar gyfer Amlwch a Chaergybi trwy broses ariannu'r cynllun Trawsnewid Trefi. Nododd y byddai'r tair dref arall yn cael eu hystyried pan fydd capasiti ar gael a'i fod yn fodlon rhannu cynlluniau drafft gydag Aelodau mewn perthynas â phrosiectau Amlwch a Chaergybi.
- Nodwyd nad yw'r ardaloedd gwledig yn derbyn cymorth ac ymddengys nad oes cynlluniau ar y gweill i fuddsoddi er mwyn caniatáu i bobl fyw a gweithio yn eu cymunedau. Gofynnwyd pam na chafodd y Strategaeth Dai ei chynnwys yn y cynlluniau ar gyfer arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn haws denu arian grant ar gyfer trefi'r Ynys na'r ardaloedd gwledig. Nododd bod gwaith yn cael ei wneud i wella'r economi mewn ardaloedd gwledig e.e. adeiladu unedau diwydiannol. Dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd y byddai'n ceisio darganfod pam na chafodd y Strategaeth Dai ei chynnwys yn y cynlluniau ar gyfer arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac yna'n adrodd yn ôl i Aelodau Etholedig. Nodwyd hefyd y gobeithir y bydd y weledigaeth ar gyfer yr arian grant yn 2026/2027 ac wedi hynny yn cynnwys ymestyn yr arian i gynnwys y pentrefi mwyaf ar yr Ynys. Dywedodd y Prif Reolwr Datblygu Economaidd mai'r bwriad yw gweithio gyda sefydliadau partner i ddarganfod ym mhle y bu arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin o werth i gymunedau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cyflawniad llwyddiannus Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Ynys Môn a'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd rhwng 2022 a 2025;**
- **Nodi bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Ynys Môn wedi'i gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth y DU;**
- **Cydnabod rôl barhaus y Cyngor o ran rheoli'r cyllid ar yr Ynys, yn ogystal â chefnogi partneriaid cyflawni lleol;**

- **Gofyn i Swyddogion am ddiweddariadau pellach mewn perthynas â chyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ystod 2025/2026.**

**GWEITHREDOEDD: Fel y nodir uchod.**

**6 ENWEBU AELOD O'R PWYLLGOR I'R PANEL SGRIWTINI CYLLID**

**PENDERFYNWYD gohirio'r eitem nes bydd trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas ag adolygu strwythur y Paneli Sgriwtini.**

**7 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2024/2025**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn manylu ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/25.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **09 Ebrill, 2025** |
| **Pwnc:** | **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adolygu trefniadau llywodraethiant a chraffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun llesiant 2023-28** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Gary Pritchard** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Sandra Thomas,<br>Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn<br>01286 679906<br>sandralynnethomas@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi a chynnig sylwadau ar y trefniadau llywodraethu, a'r cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at, a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a’r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Pa wersi y mae’r Bwrdd wedi eu dysgu o brofiadau’r gorffennol a sut maent wedi llunio ei strwythur?

2. I ba raddau y mae’r sefyllfa tlodi wedi effeithio ar gynnydd wrth roi’r cynllun llesiant ar waith?

3. Sut mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu meysydd lle gall ychwanegu'r gwerth mwyaf o ystyried adnoddau a chapasiti cyfyngedig?

4. Pa feini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu lle gallai'r Bwrdd wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu ymdrechion presennol sydd eisoes ar y gweill mewn partneriaethau a sefydliadau eraill?

**5 - Cefndir / Cyd-destun**

**Gwelwch yr adroddiad yn yr atodiad isod**

**6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg**

Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a’u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu a’n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru’r Asesiadau Llesiant.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Dim

**8 – Atodiadau**

Atodiad 1 - Adroddiad blynyddol 2023 - 2024

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Safle wê y BGC: www.llesiantgwyneddamon.org
- Adroddiadau Prosiectau Iaith ag ymarfer dda recriwtio a gofal cwsmer
- Allbwn prosiectau Naratif Cymunedol ym Mro Aberffraw a Phorthmadog
- Cynllun Llesiant Gwynedd a Mon 2018-23
- Asesiadau Llesiant Gwynedd a Mon 2022
- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28

**Atodiad 1: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24**

**1.0 Cefndir / Cyd-destun:**

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Sefydlodd y Ddeddf hefyd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a chyrff gwirfoddol allweddol ym mhob sir. Mae sefydliadau cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi ymuno i gydweithio ar un Bwrdd. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

1.2 Un o'r prif heriau i'r Bwrdd yw sefydlu lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd, gyda'r adnoddau a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael i ni. Wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant, cawsom sgyrsiau am ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill mewn partneriaethau a sefydliadau eraill. Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y cyfnod.

1.3 Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cynrychiolydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Gogledd Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Gwasanaeth Prawf Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgol Bangor

1.4 Amcanion Cynllun Llesiant 2023-28:

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn ym mis Mai 2023. Mae **tri Amcan Llesiant penodol, sef**:

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.*

1.5 Mae'r **iaith Gymraeg** yn flaenoriaeth parhaol i'r Bwrdd ac rydym yn ei hyrwyddo ym mhob maes o'n gwaith.

1.6 Mae methodoleg **System Gyfan Pwysa Iach: Cymru Iach** wedi ei fabwysiadu fel ffordd o weithio drwy'r gwaith yma. Mae'r dull yma yn rhoi'r sylw pennaf ar arweinyddiaeth a galluogi newid drwy gydweithredu a chyfranogi lleol. Mae'n golygu gweithio ar y cyd â phawb a all ddylanwadu ar lif dewisiadau bwyd iach a fforddiadwy (fel gweithwyr proffesiynol a chymunedau lleol) a chreu cyfleoedd i alluogi pobl i symud mwy a chadw'n heini.

**2.0 Cynllun Cyflawni 2023 - 2025:**

Yn hytrach na manylu ar gynllun gwaith 5 mlynedd, cytunodd Aelodau BGC i fwrw ymlaen â Chynlluniau Cyflawni tymor byr ar gyfer y Cynllun Llesiant. Mae'r diagram isod yn dangos sut y bydd y Bwrdd yn blaenoriaethu cyflawni'r amcanion ar gyfer y cyfnod dwy flynedd 2023 – 2025:



**3.0 Strwythur Gweithredu:**

3.1 Oherwydd llwyddiannau blaenorol a ffocws parhaus yr Is-grŵp Iaith Gymraeg, cytunodd y BGC y dylai barhau yn ei ffurf bresennol – dan gadeiryddiaeth Dr Lowri Hughes o Brifysgol Bangor.

3.2 Yn dilyn asesiad academaidd annibynnol o effeithiolrwydd is-grwpiau BGC eraill, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r argymhelliad i sefydlu grwpiau Tasg a Gorffen â mwy o ffocws gweithredol ar gyfer y camau gweithredu eraill. Felly, bydd pob un o'r camau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu o dan y tri prif amcan yn cael eu rhoi ar waith gan Grŵp Tasg a Gorffen gyda staff gweithredol o sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC yn cydweithio i gyrraedd y nod tymor byr.

**4.0 Gweithredu hyd yma yn 2024/2025:**

Dyma uchafbwyntiau allweddol y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r flaenoriaeth Iaith a'r amcanion llesiant hyd yma eleni a bwriadau am weddill y flwyddyn:

4.1 **Yr Iaith Gymraeg:**

**Prosiect Gweithlu Dwyieithog:**
Comisiynwyd IAITH cyf i ymchwilio i heriau a llwyddiannau **cynllunio gweithlu dwyieithog** ymhlith sefydliadau sy'n rhan o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngogledd Cymru. Y cwestiwn allweddol oedd pam fod sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael trafferth recriwtio staff i swyddi Cymraeg eu hiaith, ac a oedd yr ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain. Man cychwyn yr ymchwil oedd casglu data gan y sefydliadau ar swyddi gwag lle roedd y Gymraeg yn hanfodol, pa mor hir oedd swyddi yn wag, oedd angen 2il/3ydd hysbysiad, oedd angen is-raddio'r swydd i Cymraeg Dymunol ayyb.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Is-grŵp Iaith |
| Aelodaeth o'r Is-grŵp: | Prifysgol Bangor (Cadeirydd); Cyngor Môn, Cyngor Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, BIPBC |
| Cydweithio gyda: | Arfor, Comisiynydd y Gymraeg |
| Nawdd ariannol | £22.5k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol |
| Cwblhawyd | Gorffennaf 2024 |
| Deilliannau: | • Adroddiad gyda chanfyddiadau ac argymhellion i'w gweithredu<br>• Rhestr wirio ymarfer da i reolwyr a swyddogion Adnoddau Dynol ddilyn<br>• Y prosiect eisoes wedi ei berchnogi gan sefydliadau sydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y gogledd |
| Camau nesaf: | • Monitro gweithredu'r argymhellion a defnydd o'r rhestr wirio<br>• Cynnal adolygiad o'r data craidd i gadarnhau os oes gwelliannau wedi deillio o'r gwaith<br>• Rhannu'r allbynnau yn genedlaethol ar gais Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Prosiect nesaf | Mae'r Is-grŵp wedi derbyn adborth ac awgrymiadau gan aelodau'r Bwrdd beth ddylai'r prosiect nesaf ganolbwyntio arno. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys parhau ar waith i ddenu a recriwtio i swyddi Cymraeg – gyda ffocws ar chwalu mythau ("myth busting"). Rydym yn y broses o ddiffinio'r manyleb a byddwn yn cychwyn ar waith yn y flwyddyn newydd ac yn adrodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mehefin 2025. Byddwn yn derbyn nawdd ariannol o'r Gronfa Rhanbarthol. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Bydd sefydliadau yn fwy tebygol o recriwtio siaradwyr Cymraeg ac yn hyderus yn eu gallu i gynnig gwasanaeth dwyieithog i gymunedau Gwynedd a Môn.<br>➢ Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd yn y nifer o weithwyr sydd yn dysgu Cymraeg.<br>➢ Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd mewn gweithlu dwyieithog.<br>➢ Bydd yr Iaith yn fwy gweledol o fewn gwasanaethau a chymunedau. |

| | |
|---|---|
| | ➢ Bydd cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg drwy hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau.<br>➢ Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd mewn gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. |

4.2 **Pwysau Iach:**

| | |
|---|---|
| **Pwysau Iach:**<br>Bwriadau blwyddyn 1:<br>• Pob sefydliad i gadarnhau i ba raddau maent wedi ymgorffori'r nodau a'r credoau i'w gwaith (gyda thystiolaeth)<br>• Cytunwyd i sefydlu is-grŵp Pwysau Iach a fydd yn gweithio gyda ac yn ychwanegu gwerth i weithgarwch rhanbarthol ar bwysau iach | |
| Ffurf Cyflawni: | Is-grŵp Pwysau Iach |
| Aelodaeth o'r Is-grŵp: | Cyngor Môn (Cadeirydd); Tim Iechyd Cyhoeddus yn BIPBC, Cyngor Gwynedd, Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor |
| Cydweithio gyda: | Grŵp Partneriaeth Strategol Rhanbarthol Pwysau Iach |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Cyfnod y Cynllun Llesiant 2023-2028 |
| Deilliannau: | Cynllun gweithredu manwl ar sut all sefydliadau'r Bwrdd ymrwymo a chydweithio ar faterion pwysau iach, yn cynnwys addasu trefniadau caffael, rhoi adborth ar geisiadau cynllunio, darparu gwasanaethau ayyb |
| Camau nesaf: | • Dadansoddi data lefel sirol ar Bwysau Iach<br>• Adrodd ar y cynnydd a chyfleon i gydweithio |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | Am gydweithio gyda'r Bartneriaeth Rhanbarthol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gytuno sut byddai modd mesur hyn ac os yn cyflawni yr hyn a nodwyd, a beth fydd yr effaith/gwahaniaeth. |

4.3 **Amcan Newid Hinsawdd:**

| | |
|---|---|
| **4.3.1 Gweithredu'r Siarter Teithio Llesol:** | |
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | Cyngor Môn, Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân, Grŵp Llandrillo-Menai, Medrwn Môn |
| Cydweithio gyda: | Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sustrans |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Dwy flynedd (Medi 2024 – Awst 2026) |
| Deilliannau: | • Hyrwyddo a gweithredu Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru (yn cynnwys cydweithio ar seilwaith defnydd ynni mewn lleoliadau sector gyhoeddus)<br>• Cynnal Seremoni arwyddo'n swyddogol i'r Siarter ym mis Mawrth gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth, Ken Skates, yn bresennol |
| Camau nesaf: | • Parhau i gydweithio fel sefydliadau'r Bwrdd i weithredu i gwblhau'r Siarter |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Defnyddio teclyn matrics monitro Llywodraeth Cymru – i bob cam mae 4 dewis – *"heb ddechrau / ar waith / wedi cwblhau / arwain y ffordd"*<br>➢ Adrodd ar y data monitro yn gyson<br>➢ Adrodd ar nifer sefydliadau'r BGC sydd wedi ymrwymo i'r Siarter ac yn ei roi ar waith.<br>➢ Allbynnau lefel uchel i ddechrau, yna allbynnau ansoddol. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Rydym yn gweithredu ac yn ymrwymo i'r Siarter yn y Gymraeg. Mae'r holl adnoddau ar gael yn Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Cefnogi a hyrwyddo staff holl sefydliadau'r Bwrdd i wneud dewisiadau mwy llesol wrth gymudo i gwaith, wrth deithio yn ystod gwaith ac yn eu oriau hamdden. |

**4.3.2 Asesiad Risg Newid Hinsawdd:**

Yn ôl Adran 38 Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried Asesiad Risg Newid Hinsawdd Diweddaraf y DU wrth baratoi eu Hasesiadau Lles. Mae tri bwrdd y gogledd wedi cytuno i gydweithio i ddarparu un asesiad ar y cyd a fydd gydag opsiynau i ddrilio lawr i lefel sirol a wardiau lleol

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | 6 x Sir y gogledd, Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cydweithio gyda: | Byrddau'r Gogledd |
| Nawdd ariannol | Cronfa BGC Rhanbarthol |
| Amserlen | 2 flynedd Medi 2024 – Awst 2026 |
| Deilliannau: | • Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd<br>• Ei ddefnyddio i fwydo'r Asesiadau Llesiant nesaf yn 2026/27. |
| Camau nesaf: | • Comisiynu gwaith o goladu a chydlynu'r holl wybodaeth ag adroddiadau sydd eisoes yn bodoli yn y maes (gweler tudalen 4 o'r cyflwyniad am esiamplau o rhain) |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Bydd asesiad gyflawn o effaith newid hinsawdd a llesiant ac oblygiadau hynny, gyda chamau ymateb ac wedi'i hadnabod i liniaru effaith ac ymateb yn rhagweithiol.<br>➢ Asesiad risg wedi'i gwblhau<br>➢ Cynlluniau llesiant yn ymateb i'r risgiau ac yn adnabod allbynnau a deilliannau. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Byddwn yn sicrhau bod yr allbwn yn gwbwl ddwyieithog – nid cyfieithiad yn unig |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Bydd yr asesiad yn dadansoddi adborth a data gan drigolion yn tynnu sylw at sut mae materion hinsawdd hefyd yn cael effaith ar eu llesiant |

**4.3.3 Prosiect Niwbwrch:**

Peilot yw hwn a'r bwriad yw datblygu model neu ymarfer da y gellid ei ddefnyddio ar draws yr ardal o weithio mewn partneriaeth er mwyn ymateb i broblem. Rydym yn treialu dull gwahanol, cydweithredol o fynd i'r afael â phroblemau mynediad a thraffig yn ardal Niwbwrch a Llanddwyn ar Ynys Môn. Mae'n ffordd newydd o weithio ar y cyd, lle mae'r sefydliadau o gwmpas y bwrdd yn rhannu heriau a datrysiadau, yn cydweithio ar un cynllun, yn rhannu adnoddau ac yn cyfathrebu fel un llais gyda'r rhanddeiliaid.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | Cyngor Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru, Medrwn Môn |
| Cydweithio gyda: | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Menter Môn, Cynghrair Bro Aberffraw |
| Nawdd ariannol | £8.5k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol yn 2023/24<br>£15k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol yn 2024/25 |
| Amserlen | Peilot: 2 flynedd (Mawrth 2024 – Chwefror 2026) |
| Deilliannau: | • Mae swyddogion o Barc Cenedlaethol Eryri wedi rhannu eu profiadau a gwersi dysgu o'r gwaith a wnaethant ym Mhen y Pass i reoli mynediad a thrafnidiaeth<br>• Wrth gymryd pryderon a syniadau am ddatrysiadau gan y gymuned leol, mae swyddogion eisoes wedi cyflawni rhai mesurau dros dro ac yn gweithio ar gynllun prosiect sydd yn cynnwys gweithrediadau tymor byr, canolig a thymor hir.<br>• Wrthi'n peilota ffordd newydd i weithio ar y cyd, lle mae'r sefydliadau o gwmpas y bwrdd yn rhannu heriau a datrysiadau, |

| | |
|---|---|
| | yn cydweithio ar un cynllun, yn rhannu adnoddau ac yn cyfathrebu fel un llais gyda'r rhanddeiliaid. |
| Camau nesaf: | • Rydym yn y broses o adrodd yn ôl ar gynnydd i'r gymuned leol gyda'r gobaith y byddent yn gweld gwir wahaniaeth mor fuan â Haf 2025. Nawdd ariannol rhanbarthol yn cyllido'r gwaith yma.<br>• Mae swyddogion o'r Cyngor Sir yn asesu'r datrysiadau sydd angen gwariant cyfalaf ac yn ymchwilio i ffynonellau ariannu penodol<br>• Cynnal adolygiad o'r peilot hyd yma gyda'r bwriad o'i rannu yn rhanbarthol a'i gynnig fel datrysiad posib i broblemau llesiant cymunedol gyda nawdd ariannol o'r grant rhanbarthol. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Mesurau fel data ar draffig ac ymwelwyr yn yr ardal Haf 2025<br>➢ Holiadur i bobl leol yn mesur bodlonrwydd a gwelliannau llesiant |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Wedi sicrhau arbenigwyr a hwyluswyr dwyieithog yn y sesiynau cyhoeddus ac wedi ymdrechu yn benodol i sicrhau bod pobl leol yn cymryd rhan ac yn medru mynegi eu pryderon a'u syniadau yn y Gymraeg. Mae'r holl gyfathrebu yn ddwyieithog. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Mae pobl leol wedi adrodd nad ydynt yn defnyddio'r goedwig na'r traeth dros fisoedd yr Haf oherwydd y prysurdeb a'r gor-dwristiaeth. Mae'r sefyllfa yn cael effaith andwyol ar eu bywydau dydd i ddydd a'u llesiant. Mae'r prosiect yn cyfarch y diffyg mynediad i adnoddau naturiol fel traeth a choedwig Llanddwyn i bobl leol. |

4.4 **Amcan Tlodi:**

| | |
|---|---|
| **Cynnal Gweithdai ar Dlodi i Aelodau Bwrdd:**<br>Mae Sefydliad Bevan yn bwriadu hwyluso tri gweithdy yng Ngwynedd a Môn i sicrhau bod gan sefydliadau yn yr ardal ddealltwriaeth gyffredin o dlodi ac i helpu sefydliadau i feddwl yn fwy strategol am eu rôl wrth ddarparu datrysiad. Byddai pob un o'r gweithdai hyn yn cael eu targedu at gynulleidfa wahanol. | |
| Ffurf Cyflawni: | Gweithdai i Aelodau'r Bwrdd a swyddogion maes tlodi yn eu sefydliadau |
| Cydweithio gyda: | Sefydliad Bevan, Cyngor Môn, Cyngor Gwynedd |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Wedi llithro i'r Haf 2025 |
| Deilliannau: | • Erbyn diwedd y sesiynau bydd gan gyfranogwyr:<br>  • Dealltwriaeth ddyfnach o ba rai o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn tlodi a goblygiadau hyn ar gyfer penderfyniadau rheoli a gweithredol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.<br>  • Y sgiliau i wneud eu dadansoddiad eu hunain o ba rai o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn tlodi.<br>• Wedi datblygu syniadau am y ffordd orau o reoli eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n darparu atebion i dlodi yn yr ardal. |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau sydd eu angen<br>• Trefnu a chynnal Gweithdai<br>• Cytuno'r camau gweithredu ac adnabod cyfleon i gyd-weithio yn dilyn y Gweithdai |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Bydd aelodau'r Bwrdd a swyddogion yn deall effaith tlodi ar drigolion a chymunedau.<br>➢ Bydd aelodau'r Bwrdd a swyddogion yn cynllunio ar sail tystiolaeth ac ymchwil, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau fod gwasanaethau yn rhagweithiol er mwyn arbed a lliniaru effaith tlodi. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *I'w gytuno* |

| | |
|---|---|
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | *I'w gytuno* |

4.5 **Amcan Plant a phobl Ifanc:**

| **Ymrwymo i fod yn FGC sy'n Wybodus am Drawma:**<br>Mae fframwaith yng Nghymru mewn lle i helpu sicrhau:<br>● Bod swyddogion mewn sefydliadau yn gwybod am adfyd a thrawma ac yn deall sut maen nhw'n effeithio ar blant a phobl ifanc.<br>● Bod sefydliadau yn gwybod sut i gamu i mewn ac atal adfyd a thrawma rhag digwydd.<br>● Bod sefydliadau yn gwybod sut i gefnogi rhywun sydd wedi'i effeithio gan drawma. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cynnal sesiynau penodol gydag arbenigwyr ar Drawma i holl Aelodau'r Bwrdd |
| Cydweithio gyda: | Cyngor Môn |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Wedi llithro i 2025/26 |
| Deilliannau: | I'w cadarnhau |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau<br>• Trefnu a chynnal Gweithdai<br>• Cytuno'r camau gweithredu ac adnabod cyfleon i gyd-weithio yn dilyn y Gweithdai |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | ➢ Bydd pob aelod y Bwrdd yn wybodus am drawma ac effaith trawma, gan sicrhau fod y Byrddau yn ymateb yn rhagweithiol yn y Cynlluniau Llesiant.<br>➢ Byddwn yn gwybod hyn drwy fonitro aelodau sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *I'w gytuno* |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | *I'w gytuno* |

**5.0 Ymgysylltu'n lleol:**

Dyma dri esiampl o'r Bwrdd yn ymgysylltu gyda chymunedau ag ysgolion yn Ngwynedd a Môn yn 2024:

| 5.1 Naratif cymunedol: Bro Aberffraw<br>Ar gais Medrwn Môn gofynnwyd sut allwn ni fynd i'r afael yn well ag anghenion y gymuned leol drwy gwelliannau mynediad a thrafnidiaeth ym Mro Aberffraw.<br>A yw'r ardal yn lle hygyrch, cysylltiedig, ac os nad yw, sut mae datrys hynny?<br>Y Gweithdai wedi cynnwys gweithgareddau torri iâ, gwaith gyda phypedau, animeiddio, gwneud propiau a ffilmio. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cydweithio a chomisiynu |
| Cydweithio gyda: | Cyngor Môn, Medrwn Môn, Grwpiau Cymunedol ym Mro Aberffraw |
| Nawdd ariannol | Y Gronfa BGC Rhanbarthol a Phrifysgol Wrecsam |
| Amserlen | Cwblhawyd Medi 2024 |
| Deilliannau: | • Prosiect Creadigol gyda grwpiau cymunedol lleol yn creu gwaith celf o siwrneiau trwy Bro Aberffraw, yn cysylltu amrywiaeth o fannau cychwyn a gorffen.<br>• Wedi casglu adborth ar y cysylltedd a'r gallu i gerdded Bro Aberffraw trwy weithgareddau creadigol ac wedi gwella dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.<br>• Cynghrair Bro Aberffraw wedi defnyddio'r wybodaeth i ffurfio cynllun gweithredu llesiant lleol |

| | |
|---|---|
| Camau nesaf: | • Defnyddio'r holl wybodaeth yn yr Asesiadau Llesiant (2025/26)<br>• Bwriad i arddangos y gwaith Celf yng Nghanolfan Bodorgan, Bro Aberffraw yn y flwyddyn newydd ac i'w gyflwyno i'r Bwrdd. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Comisiynwyd artist lleol Cymraeg, Ffion Pritchard, i ymgymryd â'r gwaith a darparwyd yr holl sesiynau ag adnoddau yn Gymraeg gydag opsiynau ar gael yn Saesneg os oedd eu hangen. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Yr ymgysylltu yn cynnwys ceisio deall rhwystredigaethau pobol Bro Aberffraw ar gadw'n heini a theithio llesol |

**5.2 Naratif cymunedol: Porthmadog**

Ar gais Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Gwynedd, cynhaliwyd gweithdai yn gofyn y cwestiwn "a yw pobl ar draws yr ystod ddemograffig sy'n byw ym Mhorthmadog yn teimlo bod Porthmadog yn oed-gyfeillgar ac os felly pam ac os na, beth ddylai fod yn wahanol?"
Y gweithdai yn cynnwys gweithgareddau torri iâ, gwaith pyped, gwaith 3D a 2D, peintio, collage a thecstilau.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cydweithio a chomisiynu |
| Cydweithio gyda: | Gwasanaeth Oedolion Cyngor Gwynedd, Ysgol Eifion Wyn, Ysgol Eifionydd, Clwb Ieuenctid Porthmadog, Gofal Ychwanegol Hafod y Gest a Grŵp Cynefin |
| Nawdd ariannol | Y Gronfa BGC Rhanbarthol a Phrifysgol Wrecsam |
| Amserlen | Cwblhawyd Medi 2024 |
| Deilliannau: | • Wedi casglu adborth ar ba mor oed-gyfeillgar ydi Porthmadog trwy gweithgareddau creadigol fydd yn cael ei ddefnyddio i lunio gwasanaethau i'r dyfodol.<br>• Wedi gwella dealltwriaeth rhwng cenedlaethau o fewn cymuned Porthmadog.<br>• Wedi annog dealltwriaeth o ragfarn ar sail oedran a beth sy'n creu cymdeithas oed-gyfeillgar.<br>• Gwasanaeth Oedolion wedi defnyddio'r wybodaeth i ffurfio strategaeth / cynllun gweithredu |
| Camau nesaf: | • Defnyddio'r holl wybodaeth yn yr Asesiadau Llesiant (2025/26)<br>• Bwriad i arddangos y gwaith Celf ym Mhorthmadog yn y flwyddyn newydd ac i'w gyflwyno i'r Bwrdd |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Comisiynwyd artist lleol Cymraeg, Ffion Pritchard, i ymgymryd â'r gwaith a darparwyd yr holl sesiynau ag adnoddau yn Gymraeg gydag opsiynau ar gael yn Saesneg os oedd eu hangen. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Yr ymgysylltu yn cynnwys ceisio deall rhwystredigaethau pobol hŷn a phobl ifanc Porthmadog ar gadw'n heini a bwyta'n iach |

**5.3 "Arweinyddion y Dyfodol": Ymgysylltu am y Cynllun Llesiant ar ffurf gweithdai yn Ysgol David Hughes, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol y Moelwyn , Ysgol Botwnnog ac Ysgol Brynrefail**

Gan weithio gydag Xplore cyflwynwyd sesiwn addysgiadol i ysgolion yn ceisio mewnbwn, a syniadau gan bobl Ifanc i gysylltu a deall yr heriau a datblygu sgwrs/syniadau ysgogi ar gyfer y Bwrdd.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cydweithio a chomisiynu |
| Cydweithio gyda: | Gwasanaethau Addysg Cyngor Môn a Chyngor Gwynedd |
| Nawdd ariannol | Y Gronfa BGC Rhanbarthol a Phrifysgol Wrecsam |
| Amserlen | Cwblhawyd Hydref a Tachwedd 2024 |
| Deilliannau: | • Cysylltwyd pobl ifanc yn uniongyrchol â'r Bwrdd a'r ffocws/blaenoriaethau yn ogystal â chael eu mewnbwn ar raglen waith y Bwrdd<br>• Rhannwyd mewnwelediad i'r hyn y mae'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu. |
| Camau nesaf: | • Bwydo'r holl wybodaeth i'r Asesiadau Llesiant (2025/26)<br>• Parhau i ymgysylltu gyda ysgolion ar draws Môn a Gwynedd yn rheolaidd |

| | |
|---|---|
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Sicrhau bod tîm dwyieithog o Xplore/Prifysgol Wrecsam yn arwain y gweithdai yn ysgolion Gwynedd a Môn |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Gweithdai yn cynnwys mapio sut mae pobl ifanc yn cadw'n heini – pa reolaeth sydd ganddynt dros eu taith i'r ysgol, eu hamser hamdden, mynediad i adnoddau cadw'n heini, amser ar gyfryngau cymdeithasol ayyb |

**6.0 Cefnogaeth a chydweithio rhanbarthol:**

6.1 Cefnogir y BGC yn rhanbarthol gan Bartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru / North Wales Insight Partnership (NWIP), sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r sector cyhoeddus ac yn cysylltu sefydliadau a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae NWIP yn annog gwaith partneriaeth rhanbarthol i alinio blaenoriaethau a nodi cyfleoedd ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

6.2 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu Grant Cymorth Rhanbarthol BGC Gogledd Cymru sy'n cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd ar ran BGCau y rhanbarth. Diben y cymorth hwn yw annog cydweithio ag arloesi rhwng y tri BGC. Mae'r grant hwn yn cefnogi datblygiad rhai dulliau arloesol o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, sydd eisoes wedi helpu i gefnogi cyflawni'r amcanion llesiant lleol.

6.3 Mae Rhwydwaith Cynhyrchu Cymru yn darparu cefnogaeth hirdymor ar gyfer ymgysylltu a chyd-gynhyrchu ar draws Gogledd Cymru. Mae'r BGC yn defnyddio cefnogaeth y Rhwydwaith hwn i helpu i ymgysylltu'n lleol gyda chymunedau.

**7.0 Monitro:**

7.1 Mae'r Is-grŵp Iaith a'r grwpiau Tasg a Gorffen a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Maent yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod y cyfarfodydd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno. Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd i gefnogi a chynnal y gwaith. Hefyd cyhoeddir adroddiad blynyddol sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

7.2 Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau craffu'r Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**8.0 Camau Nesaf**

Yn dilyn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Bwrdd gydag unrhyw argymhellion. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei rannu gyda Phwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd.

**Diwedd**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **9 Ebrill 2025** |
| **Pwnc:** | **Diweddariad ar Borthladd Rhydd Ynys Môn** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno diweddariad ar gynnydd diweddar mewn perthynas â sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**E-bost:** | **Tudur H. Jones**<br>**tudurjones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mae'n berthnasol i bob Aelod Lleol** |

**1 - Argymhelliad/argymhellion**

Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn:

1. Cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gynnwys cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol a Llawn.
2. Cydnabod cadernid y trefniadau llywodraethu a throsglwyddo o'r Bwrdd Cysgodol i'r Bwrdd Llawn.
3. Nodi'r camau nesaf o ran cadarnhau'r Porthladd Rhydd, gan gynnwys yr angen i gymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn y daw'r Porthladd Rhydd yn weithredol.

**2 - Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Datblygwyd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn unol â gweledigaeth, amcanion a gwerthoedd Cynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar gydweithio, yr iaith Gymraeg a hyrwyddo'r ynys, a hyrwyddo cyfleoedd fydd yn creu swyddi a thwf yn yr economi ac mae aliniad cryf rhwng amcanion y Porthladd Rhydd ac amcanion y Cyngor.

Yng nghyd-destun ein blaenoriaethau corfforaethol a chyda pholisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill yn sail i'r bid (h.y. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru), gall Porthladd Rhydd Ynys Môn hefyd chwarae rôl ganolog a holl bwysig pan fydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei Strategaeth Ddiwydiannol yn 2025.

Nod Porthladd Rhydd Ynys Môn yw adfywio a chreu swyddi o safon uchel, a dod â masnach, buddsoddiad ac arloesi i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd yn adeiladu ar y Rhaglen Ynys Ynni (Rhy), sef y trefniadau cydweithio presennol a sefydlwyd rhwng rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Gweledigaeth y RhYY yw

| |
|---|
| 'gwireddu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer creu swyddi, twf economaidd a ffyniant trwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn'. Mae'n alinio'n llawn hefyd â nodau Strategaeth Dwf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br><br>Porthladd Caergybi yw'r porth rhyngwladol i mewn i Gymru - ac mae'n gyswllt hanesyddol rhwng y DU ac Iwerddon. Ni ellir tanbrisio gwerth economaidd-gymdeithasol a phwysigrwydd y Porthladd i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Amlygwyd ei bwysigrwydd yn ddiweddar pan gaeodd y Porthladd rhwng 7 Rhagfyr 2024 a 15 Ionawr 2025. Dyma'r ail borthladd gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU ac mae'n gwasanaethu tua 1,500,000 o deithwyr y flwyddyn, tua 4,000,000 tunnell o nwyddau a 370,000 o symudiadau nwyddau. Yn 2021, gwelwyd gostyngiad o 2.1 miliwn tunnell (35.9%) yn y nwyddau oedd yn teithio trwy Borthladd Caergybi. Ffactor allweddol arall a gyflawnir gan y Porthladd Rhydd fydd ailadeiladu'r bont dir a chynyddu masnach rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd a gollwyd oherwydd Brexit. Mae'r Porthladd felly yn cefnogi - yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol - cannoedd o swyddi yng Nghaergybi ac ar Ynys Môn yn ehangach.<br><br>Mae'n cyd-fynd â strategaethau lleol, gan gynnwys:<br>• Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, 2018)<br>• Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2023)<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2024 - 2028 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)<br>• Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn (Cyngor Sir Ynys Môn, 2019)<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)<br>• Cynllun Tuag at Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022) |

| **3 - Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini** |
|---|
| 1. Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]<br>2. Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]<br>3. Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]<br>4. Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>[ffocws ar lesiant] |

| **4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| 1. Pa heriau a risgiau sy'n wynebu'r Cyngor wrth weithredu fel Corff Atebol?<br>2. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau trefniadau priodol o ran rheoli, dyrannu a chydymffurfio wrth wario'r arian cychwynnol gwerth £25m?<br>3. Fydd y gyllideb flynyddol arfaethedig o £600,000 yn ddigon i gwrdd ag anghenion gweithredol Porthladd Rhydd Ynys Môn? |

4. Sut fydd yr effaith gadarnhaol bosib ar Gymunedau Lleol, y Gymraeg a Diwylliant yn cael eu huchafu?
5. Mae cynllun y prosiect yn amcangyfrif y gallai tua 3,500 o swyddi newydd gael eu creu ar hyd a lled Gogledd Cymru. Pa drefniadau fydd ar waith i wneud y mwyaf o gyflogaeth leol neu ranbarthol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**a) Cyflwyniad i Borthladdoedd Rhydd**

Gwahoddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fidwyr i gyflwyno cynigion am Borthladdoedd Rhydd yn hwyr yn 2022. Agorodd y broses fidio ar 1 Medi 2022 ac roedd yn cau ar 24 Tachwedd 2022. Cawsom wybod bod Ynys Môn wedi llwyddo yn y cam cyntaf ar 23 Mawrth 2023 ac roedd hynny wedyn yn golygu ein bod yn cael mynd ymlaen i'r cam achos busnes. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhagor o fanylion am y cam hwnnw.

Ardaloedd dynodedig yw Porthladdoedd Rhydd lle mae nifer o gymhellion economaidd ar gael i ysgogi'r economi leol ac annog twf a buddsoddiad. Mae'r Porthladd Rhydd yn gyfle i ddenu buddsoddiad newydd sylweddol gan y sector preifat ar Ynys Môn ac mae hyn yn hynod o bwysig o ystyried y cyd-destun, gan fod nifer sylweddol o swyddi wedi eu colli yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, gan effeithio ar yr ynys. Maent yn cynnwys cymhellion a llacio rheolau'n gysylltiedig â threth, tollau, ardrethi annomestig, cynllunio, adfywio, arloesi a chefnogaeth fasnach a buddsoddi. Ni fydd nwyddau sy'n dod i mewn i'r Porthladd Rhydd yn ddarostyngedig i gyfundrefn drethi a thollau arferol y DU.

Mae gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yn seiliedig ar ddaearyddiaeth unigryw yr Ynys; bydd yn cefnogi twf masnach trwy Borthladd Caergybi, yn adfer y bont dir ac yn datblygu Rhaglen Ynys Ynni (RhYY) yr ynys, yn ogystal â sicrhau fod Caergybi, Ynys Môn a gogledd Cymru'n ehangach yn manteisio ar y buddion.

Roedd cryfder a llwyddiant y bid yn seiliedig ar ddyfnder y berthynas sy'n bodoli rhwng y Cyngor a Stena Line ers 30 mlynedd, gan gryfhau'r berthynas ymhellach a datblygu ffordd newydd o gydweithio rhwng y ddau sefydliad.

**b) Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yw bod yn hwb ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol.

Mae ganddo'r tri Amcan canlynol:

- Hybu gweithgarwch economaidd, lefelau sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth, gan greu mwy o gyfleoedd i bobl leol.
- Lleihau allgymudo a mudo o'r ardal, a gwarchod a chryfhau'r iaith Gymraeg.
- Meithrin arloesi, gwella masnach a'n mantais gystadleuol mewn sectorau allweddol.


Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a gwireddu ein Hamcanion, mae cais Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cynnwys yr amcanion canlynol fel canllaw:

1. Denu mewnfuddsoddiad a chynyddu gweithgarwch economaidd
2. Gyrru arloesi trwy ein holl weithgareddau Porthladd rhydd
3. Adeiladu ar y Rhaglen Ynys Ynni a bod yn arweinydd byd-eang mewn perthynas â chynhyrchu ynni carbon isel
4. Hybu Masnach Ryngwladol
5. Gwella Sgiliau a Chyfleoedd lleol
6. Cynyddu Cynhyrchiant
7. Gwarchod a chryfhau'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig
8. Cyfrannu at sero net a datgarboneiddio
9. Darparu amodau gweithio teg a gwarchod ansawdd yr amgylchedd

Roedd yn bwysig, felly, dangos y gallai Porthladd Rhydd gyflawni disgwyliadau'r ddwy Lywodraeth - yn enwedig adfywio a chreu swyddi o safon uchel - ac yn ôl amcangyfrifon cychwynnol, gallai 3,500 o swyddi newydd gael eu creu yng Ngogledd Cymru.

Roedd y bid yn nodi'r safleoedd canlynol fel safleoedd tollau a threth:

1. Prosperity Park (hen safle Alwminiwm Môn) - ym mherchnogaeth Anglesey Land Holdings
2. Tir Parc Cybi - ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru, Conygar a Land & Lakes
3. Tir MSParc - ym mherchnogaeth Prifysgol Bangor a'r Cyngor
4. Safleoedd Bryn Cefni - Tregarnedd a hen safle 2-Sisters ym mherchnogaeth y Cyngor ac Anglesey Land Holdings
5. Rhosgoch - ym mherchnogaeth Conygar
6. Safle Octel - ym mherchnogaeth NPL Developments




Bydd y safleoedd hyn yn elwa'n sylweddol ar fuddsoddiad er mwyn creu newid cyffroes a thrawsnewidiol, gan gynnwys:
Prosperity Park, Caergybi - dymchwel popeth, clirio ac adfer y safle, ynghyd â gosod isadeiledd hanfodol fydd yn gallu cynnal dros 1,000 o swyddi a denu buddsoddiad o dros £1 biliwn.

Peboc, Llangefni - dymchwel popeth, clirio ac adfer y safle, ynghyd â gosod isadeiledd hanfodol er mwyn dod â'r safle'n ôl i ddefnydd economaidd llawn, gan ddarparu swyddi a chyfleoedd buddsoddi.

Hen Safle 2-Sisters, Llangefni - dymchwel popeth, clirio ac adfer y safle, ynghyd â gosod isadeiledd hanfodol er mwyn dod â'r safle'n ôl i ddefnydd economaidd llawn, gan ddarparu 730 o swyddi newydd a chyfleoedd busddsoddi.

MSParc - cefnogi'r gwaith o ddatblygu ac adeiladu ail adeilad nodedig (Egni) ar y safle, gan greu swyddi o safon uchel a chyfoethogi cynnig y Parc Gwyddoniaeth ymhellach ledled Ynys Môn a'r Rhanbarth.

Roedd bid Porthladd Rhydd Ynys Môn yn amlinellu ac yn dangos nad yw Ynys Môn yn debyg i ardaloedd eraill. Mae heriau a phroblemau unigryw yn bodoli yma.

- Nid oes fawr, neu ddim, gweithgarwch economaidd presennol ar y safleoedd treth
- Mae diffyg gweithgarwch sector preifat mewn sectorau sydd yn ychwanegu gwerth uchel ac sy'n cyd-fynd ag amcanion Porthladd Rhydd

- Mae diffyg gweithgarwch ar raddfa fawr gan y sector preifat o fewn unrhyw sector
- Nid oes sylfaen sylweddol o weithgarwch presennol y gellir adeiladu arno

Er hynny, mae gan Ynys Môn gryfderau a chryfderau sy'n dod i'r amlwg y gellir manteisio arnynt trwy'r dynodiad Porthladd Rhydd. Maent yn cynnwys, yn benodol:

- Y sector Ynni a'r Rhaglen Ynys Ynni, ac yn benodol niwclear, llanw, gwynt a hydrogen
- Cryfder y ddarpariaeth Addysg Uwch ac Addysg Bellach
- Bod â'r ail Borthladd gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU a chyfle i gynyddu masnach ymhellach.

**c) Y Penderfyniad ar y Porthladd Rhydd a Datblygu Achosion Busnes**

Ar 23 Mawrth 2023, hysbyswyd y Cyngor Sir fod ei gais Porthladd Rhydd yn llwyddiannus, yn amodol ar gwblhau'r achos busnes manwl.

Yn dilyn hynny, dechreuodd y gwaith o baratoi'r Achos Busnes Amlinellol (ABA), gan ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y ddwy Lywodraeth. Roedd y canllawiau'n cynnwys Holiadur ABA gydag ychydig dros 100 o gwestiynau yr oedd rhaid eu hateb er mwyn cwblhau pump “Achos” yr ABA (Strategol, Economaidd, Ariannol, Masnachol a Rheoli). Yn ogystal â'r cwestiynau, roedd 13 Atodiad manwl, gan gynnwys y gofrestr risgiau a chynlluniau ar gyfer sgiliau a Gwaith Teg, Arloesi, Masnach a Buddsoddi a Sero Net, gan ddarparu gwybodaeth bellach a strategaethau.

Cyflwynwyd yr ABA ym mis Rhagfyr 2023 a derbyniwyd adborth ffurfiol gan y ddwy Lywodraeth ym mis Ionawr 2024. Rhoddwyd sylw i'r pwyntiau gweithredu a godwyd yn yr adborth cyn dechrau paratoi'r Achos Busnes Llawn (ABLl). Fodd bynnag, cyhoeddwyd Etholiad Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2024 ac arweiniodd hynny at oedi annisgwyl yn y broses gydag Adrannau'r Llywodraeth. Cymeradwywyd yr ABA yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2024 - roedd hyn yn llwyddiant ac yn garreg filltir sylweddol yn y broses. Ar ôl ethol Llywodraeth newydd, cyflwynwyd yr ABLl (fersiwn mwy manwl o'r ABA) ym mis Ionawr 2025. Mae adborth anffurfiol gan y ddwy Lywodraeth ym mis Mawrth 2025 yn nodi bod angen rhoi sylw i fân weithredoedd critigol yn unig.

Yr amserlen ar gyfer datblygu'r achos busnes oedd:

- Cyflwynwyd ABA y Porthladd Rhydd ym mis Rhagfyr 2023
- Derbyniwyd adborth ym mis Ionawr 2024
- Ail-gyflwynwyd yr ABA ym mis Ebrill 2024
- Cymeradwywyd yr ABA gan y Gwasanaeth Sifil ym mis Mai 2024
- Galwyd Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2024 (ar yr un diwrnod ag y cymeradwywyd yr ABA - gohiriwyd yr holl weithgareddau)
- Cymeradwywyd yr ABA ym mis Rhagfyr 2024
- Cyflwynwyd yr ABLl ym mis Ionawr 2025 (bu i waith ar yr ABLl barhau tra'r oeddem yn disgwyl i'r ABA gael ei gymeradwyo'n derfynol)
- Rhagwelir y caiff yr ABLl ei gymeradwyo ym mis Ebrill 2025

O ran Llywodraethu, roedd datblygu'r ABA a'r ABLI yn waith hynod gymhleth a heriol o ystyried maint a chwmpas yr achosion busnes ac roedd rhaid gweithio ar y cyd â Stena Line a nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn darlunio'r ecosystem sy'n bodoli ar Ynys Môn. Roeddent yn cynnwys:

1. Tirfeddianwyr
2. Prifysgol Bangor a MSParc
3. Grŵp Llandrillo Menai
4. Uchelgais Gogledd Cymru
5. Morlais a Menter Môn

**d) Dynodi Safleoedd Treth**

Roedd sicrhau dynodiad safleoedd treth yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses Porthladd Rhydd a llwyddwyd i wneud hyn ym mis Rhagfyr 2024. Dynodwyd y safleoedd treth Canol Môn (lleoliadau MSParc a Llangefni) a Pharth Ffyniant Môn (Caergybi) yn llwyddiannus ac maent felly'n cael eu cydnabod o dan y gyfraith.

Mae'r safleoedd yn cael eu cydnabod o dan y gyfraith fel ardaloedd daearyddol lle gall busnesau fanteisio ar ryddhad treth er mwyn adfywio rhanbarthau ledled y wlad lle mae mwyaf ei angen.

Roedd y safleoedd treth a ddynodwyd ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn yn dod i rym o 23 Ionawr 2025.

Y bwriad yw bod safleoedd treth Gogledd Môn yn cael eu dynodi yn ddiweddarach yn 2025 er mwyn sicrhau rhagor o wybodaeth ac eglurder ynglŷn â synergedd posib â datblygiadau yn y sector ynni.

**e) Rôl y Cyngor Sir o ran Gwireddu'r Porthladd Rhydd (Corff Atebol)**

Mae'r rhaglen Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru ychydig yn wahanol i'r hyn a geir yn Lloegr gan fod rhaid i'r Awdurdod Lleol lletyol weithredu fel Corff Atebol. Mae hyn felly'n rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y Cyngor, ond mae'n golygu hefyd fod ganddo fwy o ddylanwad a rheolaeth o ran cyflawni'r rhaglen, yn enwedig mewn perthynas â'i gyfrifoldebau statudol.

Wrth ddatblygu'r achos busnes, mae'r Cyngor wedi arwain y gwaith o sefydlu egwyddorion craidd ar gyfer y cydweithio agos parhaus gyda Stena Line a'n partneriaid, gan gynnwys ffurfioli strwythurau llywodraethu priodol, rhywbeth fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau a gwarchod rhwymedigaethau statudol a chyfrifoldebau'r Cyngor.

Gan mai'r Cyngor Sir fydd yn gweinyddu'r arian (£1m o arian refeniw a £25m o arian cyfalaf sbarduno), byddwn - fel Corff Atebol - yn llwyr gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth lawn â rheolau prynu'r sector cyhoeddus wrth wario'r arian, yn ogystal â monitro ac adrodd ar yr holl wariant cysylltiedig. Bydd y Cyngor (trwy'r Swyddog Adran 151) yn sicrhau fod yr Achosion Busnes sy'n ymgeisio am yr arian sbarduno gwerth £25m yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rheolau cymorth gwladwriaethol, rheoli cymorthdaliadau, gwerth am arian a chaffael, a'u bod yn gallu arddangos yr angen am arian cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n gwneud gwaith datblygu prosiect ar hen safle Peboc yn

Llangefni, er mwyn manteisio ar arian sbarduno, gan adfer ac ailddatblygu'r ardal a dod â'r safle yn ôl i ddefnydd economaidd.

Bydd cyfrifoldebau hefyd yn cynnwys cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â monitro ac arfarnu (megis casglu a darparu data mewn perthynas â swyddi newydd, busnesau a grëwyd, sgiliau a buddsoddiad, a buddsoddiad preifat a ddenwyd) ayb.

Yn ogystal â chefnogi a chymeradwyo'r achosion busnes er mwyn derbyn yr arian sbarduno, bydd gan y Swyddog Adran 151 gyfrifoldebau ehangach o ran gosod y gyllideb ac mewn perthynas â threthi busnes a gedwir hefyd. Ar gyfer Ynys Môn, golyga hyn fod yr incwm a gynhyrchir gan y safleoedd treth (Canol Môn, Caergybi a Gogledd Môn) yn cael ei gadw a'i warantu am 25 mlynedd, gan greu ffynhonnell incwm i'r Cyngor, a'r sicrwydd i fenthyca, os penderfynir gwneud hynny, er mwyn buddsoddi mewn cynlluniau adfywio ac isadeiledd fydd yn cefnogi twf pellach, yn unol ag amcanion y Porthladd Rhydd. Oherwydd cwmpas a maint rhai o'r datblygiadau posib ar y safleoedd treth, gallai'r swm fod yn un sylweddol.

Fel Corff Atebol, felly, bydd gan y Cyngor y cyfrifoldebau canlynol:

1. Derbyn arian ar ran y Porthladd Rhydd a bod yn gyfrifol am ei weinyddu'n briodol
2. Cymeradwyo cyllideb weithredol flynyddol y Porthladd Rhydd
3. Sefydlu a chynnal system ariannol i gofnodi'r holl arian a dderbynnir ac a warir ar ran y Porthladd Rhydd
4. Gwreiddio llywodraethu da wrth wneud penderfyniadau, gan ddilyn egwyddorion Nolan
5. Adolygu a chymeradwyo achosion busnes ar gyfer prosiectau arian cyfalaf sbarduno a phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan ardrethi annomestig a gedwir
6. Penderfynu ar gymhwysedd er mwyn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig
7. Sicrhau fod penderfyniadau a gweithgareddau'r Porthladd Rhydd yn dryloyw a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnig gwerth am arian
8. Cadw'r wybodaeth angenrheidiol a sicrhau fod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ynglŷn â gwariant, gweithgareddau a chanlyniadau'n cael eu monitro, eu cofnodi a'u hadrodd yn briodol.
9. Gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y Llywodraeth mewn perthynas â phob mater yn ymwneud â'r Awdurdod Arweiniol/Corff Atebol yn gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd.

**f) Porthladd Rhydd Ynys Môn - y Cwmni a'r Bwrdd**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r cwmni cyflawni yn llwyddiannus, sef cwmni cyfyngedig trwy warant - Porthladd Rhydd Ynys Môn - yn ogystal â'r Bwrdd Cysgodol (gan gynnwys yr holl ofynion llywodraethu megis yr Erthyglau) er mwyn darparu'r strwythurau llywodraethu a throsolwg sy'n ofynnol gan y ddwy Lywodraeth. Roedd hyn, unwaith eto, yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses. Bydd yn dilyn trefniadau'r Cyngor o ran mabwysiadu polisïau, y gyflogres, pensiynau ac ati, ond er hynny, bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn endid/cwmni ar wahân fydd yn gyfrifol wireddu a gweithredu'r Porthladd Rhydd.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Cysgodol ar 29 Ionawr 2025 ac argymhellir bod un cyfarfod arall o'r Bwrdd Cysgodol yn cael ei gynnal cyn trosglwyddo'n llawn i'r Bwrdd yn yr Haf 2025, yn dilyn cymeradwyo'r ABLI yn ffurfiol. Wrth ddatblygu'r achos busnes, mae'r Porthladd Rhydd wedi argymell cyllideb weithredol o ychydig llai na £600,000 y flwyddyn. Dyma fyddai'r swm isaf ar gyfer unrhyw Borthladd Rhydd yn y DU ac mae'n cyd-fynd ag amcanion Porthladd Rhydd Ynys Môn i fod yn fenter ddarbodus wedi'i theilwra i gyd-fynd ag amgylchiadau penodol Ynys Môn.

Er mai'r Cyngor yw'r unig Aelod o'r Bwrdd ar hyn o bryd, bydd yr aelodaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys Prifysgol Bangor, Conygar, Menter Môn, Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo. Ni fydd Stena Line yn aelod. Bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd fel 'sylwedyddion'.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn recriwtio gweithwyr ar gyfer y cwmni ac mae'r swyddi canlynol wedi cael eu nodi fel rhai y mae eu hangen ar gyfer y cyfnod cyntaf o ran cyflawni'r Porthladd Rhydd:

1. Prif Swyddog (Graddfa i'w gadarnhau)
2. Rheolwr Cyflawni (swydd Gradd 8)
3. Cynorthwyydd Gweinyddol (swydd Gradd 5)

Wrth i'r cwmni dyfu ac wrth i'r gwaith o gyflawni amcanion y Porthladd Rhydd ddwysau, rhagwelir y bydd y Tîm yn ehangu i gynnwys swyddogaethau'n gysylltiedig ag Arloesi, Sgiliau a Marchnata.

Yn unol â'r cyfrifoldebau Llywodraethu y mae'r Cyngor wedi eu derbyn, mae'n rhoi sylw i bob mater yn gysylltiedig â'r tirfeddianwyr. Mae hyn yn cynnwys Cytundebau Tirfeddianwyr, rhywbeth sy'n holl bwysig. Unwaith eto, bu hyn yn heriol a chymhleth ac, yn siomedig, mae rhai tirfeddianwyr wedi gadael y broses.

**g) Datblygiadau ar y Safleoedd Treth**

Mae'r Tîm Ynys Ynni wedi bod yn cefnogi Anglesey Land Holdings a'u hymgynghorwyr wrth iddynt roi eu cynlluniau datblygu a phrosesau cynllunio ar waith ar gyfer Prosperity Park a hen safle 2-Sisters yn Llangefni. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys trefnu'r Sesiwn Friffio i Aelodau ar 27 Tachwedd 2024, ar roedd hynny'n holl bwysig o ran cyflwyno'r cynllun i'r Aelodau Etholedig.

Mae gweithgareddau cefnogi eraill yn cynnwys:

- Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd rhwng swyddogion y Rhaglen Ynys Ynni a'r ymgeisydd a'i asiant cynllunio cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Adolygodd y swyddogion y dogfennau cynllunio a dogfennau ategol er mwyn sicrhau y byddai'r cais a gyflwynwyd yn gadarn a dilys.
- Cyn cyflwyno cais cynllunio, darparodd swyddogion y Rhaglen Ynys Ynni gefnogaeth a chymorth yn ystod yr ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol, trwy gysylltu ag ymgyngoreion statudol a hwyluso'r trafodaethau angenrheidiol, mynychu'r digwyddiad ymgynghori a chyfarfod â'r asiant cynllunio er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau oedd heb dderbyn ymateb ac ati.

- Cydlynu trafodaethau rhwng yr ymgeisydd ac Adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru.
- Cais am gyfleuster Batris Storio ar Prosperity Park
- Arweiniad a chyngor mewn perthynas â'r gwaith dymchwel yn 2-Sisters

Roedd hyn yn heriol oherwydd natur a maint y cynigion a chymhlethdod y ddau safle.

**h) Y Camau Nesaf ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Wrth i'r pwyslais symud o ddatblygu achosion busnes i gam cyflawni'r rhaglen Porthladd Rhydd, bydd nifer o weithgareddau blaenoriaeth yn mynd rhagddynt yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf:

Llywodraethu:

1. Sicrhau bod yr ABLI yn cael ei gymeradwyo'n llawn a derbyn manylion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Yn ei hanfod, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw cam olaf cyfnod datblygu'r Porthladd Rhydd a dyma fydd sail y berthynas rhwng y ddwy Lywodraeth, Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Cyngor.
2. Cyflwyno manylion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn derbyn ei gymeradwyaeth - rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ym mis Ebrill 2025.
3. Rhoi'r strwythurau llywodraethu ar waith er mwyn datgloi a defnyddio'r dyraniad o £25m o arian sbarduno.
4. Sefydlu strwythurau gweithredol ffurfiol, gan gynnwys cyllidebau, strategaethau gweithredu (sgiliau, arloesi, sero net ayb), polisïau AD a pholisïau eraill ac ati.

Recriwtio:

5. Gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer recriwtio Prif Swyddog a Rheolwr Cyflawni, er mwyn rhoi sicrwydd i'r ddwy Lywodraeth wrth i ni symud ymlaen i gam cyflawni'r rhaglen Porthladd Rhydd.

Cynigion i Ddatblygu Safleoedd

6. Parhau i gefnogi Anglesey Land Holdings gyda'u cynigion cynllunio ar gyfer Prosperity Park a hen safle 2-Sisters.
7. Parhau i ddatblygu gweithgareddau er mwyn paratoi i sicrhau'r dynodiad safle treth angenrheidiol ar gyfer Gogledd Môn.

**f) Y Risgiau'n gysylltiedig â Phorthladd Rhydd Ynys Môn**

Mae risgiau'n gysylltiedig â datblygu rhaglen hynod gymhleth a newydd a gellir crynhoi'r prif risgiau a nodwyd fel a ganlyn:

1. Rheoli risgiau; rheoli rhanddeiliaid a rheoli disgwyliadau.
2. Rheoli, dyrannu a chydymffurfio â rheolau mewn perthynas â'r arian sbarduno gwerth £25m.
3. Adnoddau a chapasiti o fewn y Cyngor er mwyn parhau i arwain a rheoli'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith, mewn cystadleuaeth â blaenoriaethau eraill.
4. Gwarchod rhwymedigaethau statudol y Cyngor.
5. Yr angen am lywodraethu cadarn, a rôl hirdymor y Cyngor a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen Porthladd Rhydd yn effeithiol a chan gydymffurfio â gofynion.

| |
|---|
| 6. Effaith bosib y Porthladd Rhydd ar gymunedau lleol, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.<br>7. Bod y Cyngor - a phartneriaid - yn methu â manteisio'n llawn ar y cyfle sy'n cael ei gyflwyno trwy sicrhau statws Porthladd Rhydd Ynys Môn. |

| **6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg]** |
|---|
| **6.1** Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 |
| Dim - bydd ceisiadau gan, neu ar gyfer, grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu trin union yr un fath, a gallai'r grwpiau hynny gael eu targedu i dderbyn cyllid. |
| **6.2 Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Cadarnhaol - mae'n bosib y gallai'r cyllid hwn gael ei dargedu at y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **6.3 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg** |
| Cadarnhaol - trwy greu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal y gobaith yw y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn elwa ac yn aros yn yr ardal. |
| **7 - Goblygiadau Ariannol** |
| Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Sir gan fod costau datblygu'r achos busnes wedi cael eu talu o ffynonellau allanol. |

| **8 - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **9 Ebrill 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2025/26. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati.

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2025/26 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

## RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
**[Fersiwn dyddiedig 06/03/25]**

**Nodyn i Randdeiliaid a’r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi’i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â’r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2024/25 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2025 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Opsiynau Addysg ôl-16** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2024/25 | Prifysgol Bangor |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Addysg** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Safonau mewn Ysgolion 2024/25 |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai’r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| | Menter Môn |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o’r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) – Cyllideb 2026/27 (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (prynhawn)** | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Chwefror, 2026 (12/02/2026) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (i’w gadarnhau) |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026 (22/04/2026)** | **Ebrill, 2026 (21/04/2026)** |
| | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| | Medrwn Môn |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau'r Gymraeg | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Ardoll Twristiaeth Lleol i Gymru |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Cynllun Strategol Tuag at Sero Net |
| Cynllun Strategol Chwarae | Trefniadau Gwasanaeth Gwella Ysgolion |
| Cynllun Strategol Digidol Ysgolion | Digartrefedd Ynys Môn |
| Canolfan Addysg y Bont (Gwersi a Ddysgwyd) | |